

Eich Priodas

Neuadd y Dref, Aberteifi



I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar

01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk



Llongyfarchiadau

... ar eich dyweddïad a diolch i chi am ystyried Neuadd y Dref fel lleoliad ar gyfer cynnal eich dathliadau priodas.

Rydym yn cydnabod mai dydd eich priodas yw un o ddiwrnodau pwysicaf eich bywyd, a gyda chymorth ein tîm ymroddedig a phrofiadol byddwn yn gofalu y caiff eich breuddwydion eu gwireddu yn ein man cyfarfod delfrydol.

Neuadd y Dref yw'r lleoliad perffaith i gynnal eich seremoni briodasol, eich dathliadau a'ch partïon priodas gan ei bod yn creu'r nawws orau bosib ar gyfer eich diwrnod arbennig. Mae'r Neuadd Fawr hanesyddol, lle gellir eistedd hyd at 120 o westeion, yn cynnig cefnlen ddelfrydol i'ch seremoni a/neu eich gwledd briodas.

Gellir defnyddio'r Siambr banelog ac Ystafell Radley hefyd fel bar neu ardal weini bwyd bwffe ar gyfer seremonïau llai o faint neu ddigwyddiadau min nos. Rydym yn ymfalchïo yn y sylw a roddir gennym i fanylion er mwyn gwneud yn siŵr y byddwch chi a'ch gwesteion yn gadael gydag atgofion melys am ddiwrnod perffaith i'w trysori am oes.

Pob Lwc a'n dymuniadau gorau i chi,

Tim Priodas Neuadd y Dref



I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar


01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk



Hanes yr Adeilad

Mae hanes diddorol iawn yn perthyn i Neuadd y Dref - o safbwynt pensaernïol a hanes cymdeithasol fel ei gilydd. Comisiynwyd y neuadd yn 1856, ac yn y cyfnod hwnnw byddai'r adeilad wedi cael ei ystyried yn un tra modern ac eithaf beiddgar. Hwn oedd yr adeilad dinesig cyntaf ym Mhrydain i'w godi yn yr arddull 'Gothig modern', arddull sy'n cael ei hyrwyddo gan John Ruskin yn ei '*The Stones of Venice*' 1851-3; mae'n cynnwys dylanwad Arabaidd sydd i'w weld yn amlwg yn yr addurn ffurf bwa. Mae'r darlun eglurhaol a ymddangosodd yn *The Building News* yn 1859 yn adlewyrchu'r diddordeb cenedlaethol a ddangoswyd yn y cynllun hwn bryd hynny, ac mae arbenigwyr ym maes pensaernïaeth Oes Fictoria hyd heddiw yn ei nodi fel rhywbeth eithriadol brin yng nghyd-destun adeiladau cyhoeddus Gothig.

Golwg allanol o Neuadd y Dref yn 1860



I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar

01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk



Eich Seremoni Briodasol

Mae'r Neuadd Fawr ysblennydd gyda'i nenfwd bwaog, Ystafell Radley ac Ystafell y Siambr â'i phaneli pren, i gyd ar gael i'w llogi. Trwyddedwyd y Neuadd Fawr yn llawn ar gyfer priodasau sifil a phartneriaethau ac ar gyfer seremonïau adnewyddu addunedau.

Y Neuadd Fawr

Ceir lle i hyd at 120 o westeion yn y Neuadd Fawr ac mae'r ffioedd fel a ganlyn

Llun - Gwener: £120

Sadwrn - Sul: £150

Ystafell Radley

Yn cynnig lle i hyd at 50 o westeion

Llun - Gwener: £100

Sadwrn (Seremonïau ar ôl 1yp): £120


Ystafell y Siambr

Yn cynnig lle i hyd at 30 o westeion

Llun - Gwener: £70

Sadwrn: £90

** Nodwch, os gwelwch yn dda: dylech gysylltu â'r Cofrestrydd cyn cadarnhau bwciad, er mwyn sicrhau ei fod e/ei bod hi ar gael ar y dyddiad a ddewiswyd gennych.*



I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar

01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk



Eich Gwledd Briodas

Rydym yn ymfalchïo yn ein dull arbenigol, hyblyg a phersonol o Gynllunio Priodasau. Bydd ein cydlynnydd priodas swyddogol wrth law i sicrhau y bydd pob un o'ch gofynion arbennig ac unigryw yn cael eu cyflawni. Rydym yn gwbl ymwybodol bod gennych eich anghenion unigol personol, ac felly dyna'r rheswm pam y gallwn gynnig i chi'r pecyn canlynol:

- ❖ Cyngor manwl gan y cydlynnydd priodas ar sut i drefnu eich gwledd yn Neuadd y Dref
- ❖ Defnydd llawn o'r gegin, ar eich cyfer chi a'r arlwywyr a ddewiswyd gennych (i gael rhestr o'n cyflenwyr dewisol, cysylltwch â'r swyddfa am eu manylion, os gwelwch yn dda)
- ❖ Defnydd o'r adeilad treftadaeth ar gyfer eich holl ffotograffau
- ❖ Defnydd o'r byrddau a'r cadeiriau ar gyfer eich holl westeion
- ❖ Gallwn ddarparu gwasanaethau bar llawn a byddwn yn teilwra hyn i gyd-fynd â'ch anghenion personol (caniateir i chi ddod â'ch diodydd eich hun ond codir taliad gweini am bob potel. Gweler trosodd am y prisiau.)

Mae'r ystafelloedd canlynol ar gael ar gyfer eich gwledd briodas:

Ystafell Radley - £35 yr awr

Y Neuadd Fawr - £50 yr awr

Y Neuadd Fawr ac Ystafell y Siambr - £75 yr awr

Gallwn hefyd gynnig ffi am ddefnydd drwy'r dydd yn achos pob un o'r ystafelloedd (cysylltwch â'r swyddfa am fwy o fanylion, os gwelwch yn dda.)

Gallwn hefyd ddarparu DJ mewnol am gost ychwanegol o £100, yn ogystal ag archebu'r llinellau bwrdd, y gwydrau a'r llestri ar eich rhan – Pris Ar Gais.



I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar

01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk



Diodydd Dathliadol a Diodydd ar gyfer y Wedd

Yn dilyn eich seremoni, beth am wahodd eich gwahoddedigion i dderbyniad siampên i lawr y grisiau yn Ystafell Radley a/neu yn ein cwrt penigamp?

Rydym yn hapus i newid cynnwys ein pecynnau diodydd a chynnig dyfynbris cyfatebol.

Diodydd Estyn Croeso 1

Gwin Coch, Gwin Gwyn a Dewis o Sudd Ffrwyth - £2.25 y Gwestai

Diodydd Estyn Croeso 2

Pimms a Lemonêd, Bucks Fizz a Dewis o Sudd Ffrwyth - £2.75 y Gwestai

Siampên

£4 y Gwestai

Gwin Pefriol

£2.95 y pen

Tâl Gweini

Gwin, gwin pefriol a Siampên - £5 am botel 75cl
Gwirodydd - £6 y botel hyd a 1 litr

Darperir bar a bydd y rhestr ddioddydd yn cael ei theilwra i gyd-fynd â'ch anghenion.



I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar

01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk



Gwasanaethau Proffesiynol

Disgo

Tommo

07772 873283

ACM Llanarth

01545 580329

07811 891762

Prianydd

Sarah Jane

01239 682105

Cacennau

The Cake Lady

01545 560200

Cakes by Charlaine

07826 775936

Tynnu Lliniau

Fleeting Moments Photography

07817 467034

Kate Dunwell Photography

07817 554298

RJP Photography

01437 541432

Gwahoddiadau ac ati

Candlewich Shop

07805 457963

Madison Moon

07799 551044

Dillad Priodas

J H Bridal Wear

01970 871912

07815 509881

Gorchuddion Cadeiriau

Sitting Pretty

01437 710806

07733 044378

Pretty Seats and Bows

01239 881720

Blodau

Jen's Floral Designs

01239 613631

07854 015049

The Flower Rooms

01239 711714

Cludiant

Gentle Giants

07813 174886

Big Day Bug

01545 580172

07834 981622

Amrywiol

Tŷ Bach Twt

(Llogi Cert Losin a Llestri o Dras)

01994 419026

07900 692678

Pont Steffan Dental Practice

01570 422595

Nikita's Herbalife

01239 615933

Hair and Beauty by Laura

07855 041995

Dillad Dynion

Dress for the Occasions

01437 765040

I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar

01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk



Telerau ac Amodau'r Seremoni Briodasol

Cadarnhad

Bydd bwciad dros dro yn sicrhau eich dyddiad am gyfnod o 14 diwrnod. Er mwyn cadarnhau'r bwciad ar gyfer eich Seremoni Briodasol, rydym yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig mewn e-bost neu drwy'r post, ynghyd â blaendal o 30% na fydd yn cael ei ad-dalu.

- Gwnewch yn siŵr, os gwelwch yn dda, eich bod wedi cadarnhau'r dyddiad gyda'r cofrestrydd cyn cadarnhau eich dyddiad gyda ni.
- Nodwch, os gwelwch yn dda, y bydd dyddiadau sydd wedi eu bwcio dros dro ond heb eu cadarnhau cyn pen 14 diwrnod yn cael eu rhyddhau.
- 1 wythnos cyn dyddiad eich priodas, rhaid cyflwyno manylion y paratodau terfynol sydd eu hangen ar gyfer eich seremoni yn ogystal â nifer y gwesteion ac unrhyw gerddoriaeth y dymunwch ei defnyddio.
- 1 wythnos cyn y dyddiad, rhaid talu gweddill yr arian sy'n ddyledus ar gyfer eich seremoni
- Os digwydd bod gyda chi unrhyw ofynion arbennig, byddwch mor garedig â rhoi gwybod i dîm Neuadd y Dref cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda. Ni ellir gwarantu'r anghenion arbennig hyn, oni fydd y cleient a Neuadd y Dref fel ei gilydd wedi eu cadarnhau trwy lythyr.

Cansto

Os, yn anffodus, y bydd rhaid i chi ganslo eich bwciad, codir y taliadau canlynol:
Llai nag 1 wythnos cyn y dyddiad: Byddwn yn gofyn am y taliad llawn
Mwy nag 1 wythnos cyn y dyddiad: Collir y blaendal

I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar

01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk



Telerau ac Amodau'r Medd Briodas

Cadarnhad

Bydd bwciad dros dro yn sicrhau'r man cyfarfod am gyfnod o 14 diwrnod; os na cheir cadarnhad oddi wrthyh cyn pen 14 diwrnod, yna rhyddheir y dyddiad yn awtomatig. Dim ond un dyddiad dros dro y gellir ei sicrhau fesul bwciad. Bydd bwciadau'n cael eu trin fel rhai dros dro hyd nes y bydd y cleient yn llofnodi ac yn dychwelyd y cytundeb (y cadarnhad) atom, ynghyd â'r blaendal perthnasol. Os na dderbynnir y cadarnhad, ceidw Neuadd y Dref yr hawl i ganslo'r derbyniad.

Gwnewch yn siŵr, os gwelwch yn dda, eich bod wedi cadarnhau'r dyddiad gyda'r cofrestrydd/capel/eglwys cyn cadarnhau eich dyddiad gyda ni.

Wrth gadarnhau'r bwciad, rhaid talu blaendal na fydd yn cael ei ad-dalu, sef 30% o'r tâl llogi, a disgwylir i chi hefyd gyflwyno copi wedi ei lofnodi o'r amodau a'r telerau. Os na thelir y blaendal hwn, bydd y derbyniad yn cael ei ganslo. Gellir derbyn taliad mewn arian, BACS neu ar lun siec. Ceidw Neuadd y Dref yr hawl i godi llog ar gyfradd o 5% am bob cyfnod o 28 diwrnod, neu unrhyw ran ohono, ar unrhyw weddill sy'n ddyledus.

Taliad Pellach

Bydd anfoneb *pro-forma*, yn seiliedig ar y gofynion a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol, yn cael ei hanfon atoch ddwy wythnos cyn y derbyniad. Rhaid talu'r anfoneb hon 7 diwrnod cyn y derbyniad.

Rhifau a Threfniadau Terfynol

Un mis cyn y digwyddiad, byddwn yn gofyn am amcangyfrif o'r niferoedd fydd yn mynychu a bras amseriadau eich bwciad. Mae'r cyfnod hwn hefyd yn amser delfrydol i drefnu apwyntiad i drafod yn fanwl unrhyw ofynion pellach all fod gyda chi.

Cansto

Os, yn anffodus, y bydd rhaid i chi ganslo eich bwciad, codir y taliadau canlynol: Mwy nag 1 mis cyn y digwyddiad – collir y blaendal (hefyd, rhaid i'r cleient dalu cost unrhyw gyfarpar/gwasanaethau sydd wedi eu llogi gan Neuadd y Dref.) Rhaid i'r ddau barti gytuno ar unrhyw hurio gwasanaethau fydd yn dod i mewn.

I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar

01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk



O fewn mis i'r digwyddiad – 50% o'ch anfoneb yn daladwy
48 awr cyn y digwyddiad – Rhaid talu'r taliad llawn
Rhaid i'r cleient gadarnhau'r holl gansladau trwy lythyr.

Tâl Gweini

Ni all cleientiaid neu wahoddedigion ddod ag unrhyw winoedd neu wirodydd i mewn i'r adeilad heb fod Neuadd y Dref wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw.

Oriau Trwyddedu

Trwyddedir pob derbyniad tan 1:00yb a bydd y bar yn cau am 12:30yb.

Atebolrwydd Neuadd y Dref

Nid yw Neuadd y Dref yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golli neu ddifrod i unrhyw eitemau gwerthfawr (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i arian, gemwaith ac eitemau electronig fel gliniaduron, camerâu a ffonau) oni fyddant wedi eu rhoi i'r swyddfa i'w cadw'n ddiogel.

Cyfrifoldeb y Cleientiaid

- Rhaid rhoi gwybod am unrhyw anghenion arbennig, a hynny cyn gynted â phosib. Ni chaiff yr anghenion hyn eu gwarantu oni fydd Neuadd y Dref wedi eu cadarnhau'n benodol trwy lythyr. Os na wneir hyn, ni fydd Neuadd y Dref yn gyfrifol am yr effaith y bydd hyn yn ei gael ar y gwasanaeth a'ch disgwyliadau ar ddiwrnod y briodas.
- Oni hysbysir chi fel arall, nid oes gan Neuadd y Dref unrhyw gynlluniau i ailwampio'r adeilad, ond gall y sefyllfa hon newid.
- Os oes gyda chi unrhyw ofynion sy'n gysylltiedig ag anabledd, byddwch mor garedig â rhoi gwybod yn uniongyrchol i Neuadd y Dref, a hynny cyn gynted â phosib.
- Rhaid i bob cyflenwr arlwygo allanol gysylltu â Neuadd y Dref o leiaf 2 wythnos cyn y digwyddiad er mwyn trefnu dosbarthu cyflenwadau, unrhyw ofynion a graddfeydd amser.
- Os byddwch yn defnyddio arlwywr/arlwywraig, rhaid i Neuadd y Dref weld eu Tystysgrifau Bwyd a Hyllendid ac Atebolrwydd Cyhoeddus cyfredol.

Cyfarpar a storio

Lle bydd hynny'n rhesymol bosib, bydd Neuadd y Dref yn cynorthwyo Cleientiaid gyda storio cyfarpar ac ati.

Nid yw Neuadd y Dref yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golli neu ddifrod i unrhyw eitem o gyfarpar, stoc dodrefn neu debyg. Gofynnir i gleientiaid

I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar

01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk



gadarnhau'r trefniadau gyda'r tîm rheoli, a hynny o leiaf 28 diwrnod cyn y digwyddiad.

Ymddygiad

Chi fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod neu golled a achoswyd gan unrhyw un/rai o'ch gwesteion. Rhaid cyflwyno taliad llawn am ddifrod neu golled o'r fath yn uniongyrchol i Neuadd y Dref. Mae gan Neuadd y Dref yr hawl i wahardd neu droi allan unrhyw westai sy'n achosi difrod, perygl neu ofid, neu sydd, fel arall, yn ymddwyn mewn ffordd anaddas. Yr oedolyn sy'n eu hebrwng fydd yn gyfrifol am unrhyw blant sy'n dod i'r derbyniad, ac er mwyn eu diogelwch hwy eu hunain a diogelwch y staff a'r gwahoddedigion, dylid eu goruchwyllo ar bob adeg.

Gwybodaeth

Roedd yr holl wybodaeth yn y pecyn hwn yn gywir wrth fynd i'r wasg ac mae'n agored i'w newid heb unrhyw rybudd blaenorol. Bydd yr holl drefniadau yn y pecyn hwn yn dibynnu ar gaffaeledd.

Dylid talu blaendaliadau a thaliadau i Neuadd y Dref drwy gyfrwng siec i 'Menter Aberteifi Cyf' neu drwy daliad BACS i:

Banc Barclays Bank CCC
Cod Dosbarthu: 20-18-41
Rhif Cyfrif: 70019119

I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar

01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk



I fwcio ymgynghoriad, mae pob croeso i chi gysylltu â'r swyddfa ar

01239 615554 neu guildhall@menter-aberteifi.co.uk

